**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 24 Medi 2024
yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Anthony Jenner, Rebecca Jaimangal-Jones, Julian Williams, Ffion John, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Anthony Eynon (Is-gadeirydd), Tudur Lewis, Dennis Jones, Michael Fussell, Cyng Dorian Phillips,

Dymunodd RD wellhad buan i TL o'i salwch a phawb yn edrych ymlaen i'w gael yn ôl i'n plith.

**2. Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf 30/7/2024:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 30/7/24 yn gywir gan JW ac eiliwyd gan FfJ.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

**Cam gweithredu 1: Y Cyng DP i roi'r ffurflen cais am gymorth ariannol i'r prifathro i'w chwblhau a'i chyflwyno**
Dywedodd JM nad oedd wedi derbyn cais am gymorth ariannol gan Ysgol Beca. Cadarnhaodd JM hefyd bod y ffurflen gais am gymorth ariannol wedi cael ei rhoi ar wefan y Cyngor ac wedi ei hysbysebu ar dudalen Facebook y Cyngor. Nid oes unrhyw geisiadau wedi cael eu cyflwyno hyd yn hyn.

**Cam gweithredu 2: JM i archebu'r hysbysfwrdd rhataf**
Cadarnhaodd JM bod yr hysbysfwrdd wedi cael ei brynu am gost o £139.00 ac mae AJ a MF wedi cytuno ei roi ar wal allannl Siop Glandy Cross

Materion eraill yn codi:

Logo i'r Cyngor – cytunwyd i JM ofyn i'r dylunydd wnaeth ddylunio logo'r prosiect a fyddai'n gallu dylunio logo i'r Cyngor a chadw yn debyg iawn i ddyluniad y logo hwnnw.
**Cam gweithredu: JM i ofyn i'r dylunydd ddylunio logo i'r Cyngor**

Gatiau Ysgol Beca – adroddwyd bod gatiau'r ysgol yn aml iawn ar gau tu allan i oriau'r ysgol. Dylen nhw fod ar agor tu allan i oriau ysgol at ddefnydd y gymuned
**Cam gweithredu: RJJ i drafod mater gatiau'r ysgol gyda phennaeth yr ysgol. RJJ hefyd i drafod gallu cael mynediad at gyflenwad dwr ar gyfer yr ardd gymunedol**

**4. Diweddariad ar y Prosiect Adfer Llwybrau Troed**
Rhoddodd JM y diweddariad canlynol:

- Mae'r project yn mynd yn dda iawn. Fe wnaeth RD a'r contractiwr benderfynu ar y ffordd orau i ddelio gyda'r man anodd a gwlyb ar waelod Rhydymerydd ac mae pont wedi cael ei hadeiladu
- Mae'r contractiwr yn gweithio ar y llwybr i Rhosfach erbyn hyn ac yn trafod y manylion y gwyriad gyda pherchnogion Rhosfach a Jason Lawday
- Dim ond un darn arall sydd ar ôl, sef y llwybr troed i Bantyrodyn. Bydd y contractiwr

yn gwneud cymaint ag y bydd yn gallu mynd ato gyda'i beiriannau trwm ac yna bydd y gwirfoddolwyr yn gorffen yr hyn fydd yn weddill

- Cafodd Hawliad 11 ei gyflwyno ganol mis Awst ar gyfer gweithgaredd mis Gorffennaf. Doedd Hawliad 11 ddim yn cynnwys unrhyw wariant, ond roedd yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned a gweithgaredd hyfforddi a gyfrannodd at dargedau'r prosiect
- Cyflwynodd y contractwr anfoneb am £6,000 ddechrau mis Medi am waith roedd wedi gwneud ar lwybr troed 4/18 ym mis Awst – sef y llwybr ar waelod Rhydymerydd, gan gynnwys adeiladu pont. Cafodd Hawliad 12 ei anfon wythnos diwetha am y £6,000 ac yn cael ei brosesu nawr
- Gan gynnwys Hawliad 12, mae hyn yn gadael £3,372 ar ôl; £2,480 i'r contractiwr a £892 ar gyfer offer
- Cysylltodd y swyddog grant ddiwedd wythnos diwetha yn ddweud pan fyddwn yn cyflwyno ein hawliad olaf, bydd 10% ohono yn cael ei gadw nôl nes ein bod wedi cyrraedd ein targedau i gyd. Dywedodd JM bod y targedau yn cael eu monitro yng nghyfarfodydd misol yr is-grwp yn rheolaidd a bod cynnydd da yn cael ei wneud
- Mae digwyddiad hyfforddiant arall wedi cael ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn 26 Hydref – taith a sgwrs bywyd gwyllt a dangos sut i defnyddio offer gyda Carys May a gynhelir yng Nghanolfan y Cardi Bach
- Hoffai'r is-grwp gynnal digwyddiad agoriad swyddogol llwybrau troed y prosiect ar ddydd Sadwrn 19 Hydref – taith gerdded yn dechrau o faes parcio Login am 1 o'r gloch ac i fyny i Rosfach a chael ychydig o luniaeth yn Bar Beca am 3 o'r gloch. Byddai'r perchnogion tir perthnasol, y Cynghorwyr, y gymuned, Jason Lawday, Ramblers Cymru a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn cael gwahoddiad i'r digwyddiad. Mae Bar Beca, Rhosfach yn hapus i gynnal y digwyddiad. Mae cais wedi dod o'r is- grwp yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn fodlon talu am luniaeth gan nad oes arian yn y prosiect grant ar gyfer lluniaeth. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn barod i dalu gan ei fod yn achlysur cymunedol; amcangyfrifwyd bwyd i 40 £5 y pen
- Awgrymodd FfJ i greu Geocash yn ardal y prosiect fel ffordd o ddenu mwy o ymwelwyr. Byddai modd gweld ar y log faint sydd wedi bod ar y safle. Byddai angen caniatâd y perchennog tir. Cytunodd FfJ i drefnu'r Geocash
- **Cam gweithredu: FfJ i drefnu Geocash yn ardal llwybrau troed y prosiect er mwyn denu mwy o ymwelwyr i'r safle**
- **Cam gweithredu: JM i ofyn i Jamie King am adroddiad gweithgaredd h.y. faint o bobl sydd yn ymweld â gwefan y Cyngor gan y gallai'r ffigyrau hyn gael eu cynnwys yn nhardegau'r prosiect**

## 5. Gohebiaeth

- Derbyniwyd e-bost gan Eglwys Llanglydwen yn diolch am y cyfraniad o £300 i gynnal a chadw'r fynwent.
- Derbyniwyd e-bost gan Pethau Olyvv yn diolch am y cyfraniad o £50 tuag at eu Sioe Ffasiynau i godi arian ar gyfer Tir Dewi.
- Rhannwyd nifer o wahanol ymgynghoriadau gyda'r Cynghorwyr.
- Rhannwyd manylion hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyfer y misoedd nesa gyda phawb.

## 6. Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau

- Dywedodd JM mai'r fantolen ddiwetha roedd hi wedi derbyn oedd yr un ym mis Gorffennaf lle roedd £2,767.56 yn y cyfrif cyfredol. Yn y cyfarfod ddiwedd Gorffennaf adroddwyd bod £9,767.56 yn y banc ar ôl derbyn £6,000 o arian grant. Ers hynny, mae £1,577.00 o daliadau wedi cael eu gwneud (sy'n cynnwys cydnabyddiaeth

ariannol y Cynghorwyr) a hefyd £6,000 ddechrau mis Medi i'r contractiwr, felly £7,577 o daliadau.

- Ar 16 Awst derbyniwyd yr ail praesept o £2,833.33
- Ar hyn o bryd (heb dderbyn mantolen mis Medi) amcangyfrifir bod £5,023,91 yn y cyfrif cyfredol. Mae £6,000 ar fin cyrraedd o'r Swyddfa Grant, felly erbyn wythnos nesa bydd £11,023.91 yn y cyfrif.

- Arwyddo sieciau
- Audit Wales am archwilio cyfrifon 22/23 - £389.00
- Caffi Beca - £25 llogi lleoliad
- Jamie King – taliad ar gyfer rheoli'r wefan am y 3 mis nesa: Hydref – Ionawr £150
- Hysbysfwrdd ar gyfer Glandy Cross - £139.08 (i'w dalu i JM gan ei bod wedi talu dros y ffôn)
- Tâl y clerc am 6 mis o waith, Ebrill – Medi (2 awr yr wythnos) = £699.40

**7. Cynllunio**

- Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer Cilymaenllwyd ers y cyfarfod diwetha.
- Rhannwyd gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol gyda'r Cynghorwyr drwy e-bost. Cytunwyd rhoi gwybodaeth am y CDLl ar wefan, tudalen Facebook ac hysbysfwrdd y Cyngor yn hysbysu'r trigolion am y cynlluniau arfaethedig.
- **Cam gweithredu:**
- **JM i roi gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol ar wefan, tudalen Facebook a hysbysfwrdd y Cyngor**
- **JM i gysylltu â chlerc Llanboidy i holi a ydy'r Cyngor yn hysbysebu trigolion o unrhyw geisiadau cynllunio**

**8. Diweddariad y Cynghorydd Sir** – ddim yn bresennol

**9. Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Mae arwyddion iechyd a diogelwch wedi cael eu harddangos yn yr ardal lle mae'r contractiwr yn gweithio a hefyd rhwyd oren i rwystro cerddwyr rhag cerdded yn y man hwnnw.
- Adroddodd JM y byddai gwirfoddolwyr sydd wedi cofrestru gyda Ramblers Cymru yn dod o dan yswiriant Ramblers Cymru. Bydd yr holl waith papur yn ei le cyn i unrhyw waith clirio gan wirfoddolwyr ddechrau.

**10. Bioamrywiaeth**

- Dywedodd JM fod rhai o aelodau'r is-grwp wedi bod yn cydweithio gyda Vincent Wlidlife Trust sydd yn gwneud arolwg ar math arbennig o ystlumod ar hyn o bryd – *Barbastelles bats.* Bydd 3 monitor ystlumod yn cael eu gosod mewn 3 safle yn ardal y project, gyda chaniatad y perchnogion tir, i weld a yw'r ystlumod hyn yn y goedwig.

**11. Unrhyw Fater Arall**

Adroddwyd nad yw cloddiau ar bwys Ffynnonwen wedi cael eu torri eleni
bod llawer o dyllau'r ffordd wedi cael eu trwsio ac yn llawer gwell nawr
Motorcross – roedd penwythnos motorcross wedi cael ei drefnu ar gyfer 5ed a 6ed Hydref ond cafodd ei ganslo. Credwyd nad oes hawl gan y perchennog tir i ddefnyddio'r tir hwn ar gyfer motorcross.
**Cam gweithredu: JM i ofyn i'r Cyngh DP i ymchwilio i delerau'r cae y gwnaed cais i gynnal motorcross arno**

- Derbyniwyd llythyr gan berchennog tir gyda llwybr Y Landsker yn rhedeg drwy eu tir,

yn mynegi eu hanfodlonrwydd ynglyn â'r prosiect grant a materion eraill. Darllenwyd y llythyr allan. Hoffai'r perchennog gyfarfod gyda chynrychiolwyr y Cyngor i drafod y materion a cheisio dod i ddatrysiad.
**Cam gweithredu: JM i drefnu cyfarfod gyda'r perchennog tir, i gwrdd â Jason Lawday, y Cyngh DP a RD cyn gynted â phosib. JM hefyd i anfon e-bost yn cydnabod y llythyr**

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 26ain Tachwedd 2024

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.15pm*

Arwyddwyd

Cadeirydd: .......................................... Dyddiad: 26/11/2024